

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Borth-y-Gest
Borth-y-Gest
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9UF**

Rhif yr Ysgol: 6612015

Dyddiad yr Arolygiad: 27/02/06

gan

**David Martin Cray
16768**

Dyddiad Cyhoeddi: 31/03/06

Dan rif contract Estyn: 1109105

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- * ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- * ysgolion cynradd;
- * ysgolion uwchradd;
- * ysgolion arbennig;
- * unedau cyfeirio disgyblion;
- * ysgolion annibynnol;
- * addysg bellach;
- * dysgu oedolion yn y gymuned;
- * gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- * AALlau;
- * addysg a hyfforddiant athrawon;
- * dysgu yn y gwaith;
- * cwmnïau gyrfaoedd; ac
- * elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- * yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- * yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2006 Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Borth-y-Gest fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Borth-y-Gest rhwng 27/02/06 a 28/02/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan David Martin Cray. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad byr.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	6
Safonau	6
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	8
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	8
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	11
Arweinyddiaeth a rheolaeth	12
Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	12
Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	14
Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	14
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	15
Atodiadau	17
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	17
B Data a dangosyddion ysgol	17
C Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol	18
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad	18
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	19

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Sefydlwyd yr ysgol gynradd hon dros ganrif a chwarter yn ôl. Mae wedi ei lleoli ym mhentref Borth-y-Gest, ger Porthmadog ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, Morfa Bychan gerllaw, a'r ardal wledig o gwmpas. Fe'i cynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Sir Gwynedd. Mae twristiaeth yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal, ac at ei gilydd fe'i disgrifir fel un gymharol ffyniannus. Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod llawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio tipyn pan ddechreuant yn yr ysgol.
- 2 Ar hyn o bryd, mae 81 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys wyth o blant oed meithrin. Fe'u derbynnir yn rhan amser y mis Medi sydd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd a llawn-amser y Medi wedi eu pedwerydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu rhywfaint dros y pum mlynedd diwethaf.
- 3 Tri y cant o'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim - ffigur sydd yn is o lawer na'r cyfartaleddau sirol (12%) a chenedlaethol (19%). Dynodir saith o ddisgyblion, (9%) yn rhai sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Does neb ar ddatganiad.
- 4 Ond rhyw 20% o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel prif iaith yr aelwyd ac mae hyn yn debyg i'r sefyllfa pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2000. Dilyniir rhaglen astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a bernir gan yr ysgol bod tua 80% o'r disgyblion bellach yn llwyddo i siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf.
- 5 Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Rhagfyr 1996. Ers yr arolygiad diwethaf, apwyntiwyd un aelod newydd o staff ac yn ystod yr arolygiad yma roedd aelod arall i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 6 Mae blaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2005 – 2006 yn cynnwys:
 - adolygu cynlluniau gwaith celf a dylunio a thechnoleg drwy'r ysgol;
 - adolygu trefniadau gweithgareddau maes yn y Dyniaethau;
 - sefydlu cynllun a rhaglen Amser Cylch drwy'r ysgol;
 - adolygu'r cynllun llawysgrifen drwy'r ysgol;
 - paratoi ar gyfer y Cam Sylfaen'.

Crynodeb

- 7 Roedd y tîm arolygu yn cytuno gyda barn yr ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd gradd yn is ar gyfer Cwestiwn Allweddol Pump a gradd yn uwch ar gyfer Cwestiwn Allweddol Dau.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

- 8 Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

- 9 Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni safonau sydd ag iddynt nodweddion rhagorol o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.
- 10 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac maent yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Gwnânt gynnydd da yn y datblygiad o'u medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Mae'r datblygiad o'u medrau cyfathrebu Cymraeg ar draws yr ystod brofiadau yn rhagorol.
- 11 Cyflawna'r disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 safonau rhagorol wrth ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm ac mae nifer arwyddocaol ohonynt yn huawdl iawn. Cyflawnant safonau da wrth iddynt ddefnyddio eu medrau mathemategol ar draws y pynciau, ac mae'r defnydd a wnant o'u medrau technoleg gwybodaeth mewn ystod o gyd-destunau yn aml yn dangos rhagoriaeth.
- 12 Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn nodwedd ragorol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dônt i fedru defnyddio eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu

mewn Cymraeg a Saesneg mewn ystod o gyd-destunau cwricwlaidd, gan newid o un iaith i'r llall yn ddiraffferth.

- 13 O gymharu gydag ysgolion tebyg yng Nghymru o ran y ganran o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn aml o fewn y grŵp uchaf eu perfformiad.
- 14 Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol yn y datblygiad o'u medrau personol, cymdeithasol a dysgu. Arddangosant agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith a dangosant ddiddordeb gwirioneddol yn y gwersi. Defnyddiant eu hamser yn effeithiol iawn ac mae lefelau cymhelliant yn uchel iawn ar draws yr ystod oed.
- 15 Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac maent yn wybodus iawn am ddisgwyliadau uchel yr ysgol.
- 16 Ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, roedd canran gyfartalog presenoldeb yr ysgol o gwmpas 96%. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 17 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
57%	43%	--	--	--

- 18 Mae'r athrawon yn llwyddiannus wrth gymell y disgyblion i ddysgu ac yn gosod her briodol ar eu cyfer fel dysgwyr unigol. Yn y gwersi a arsylwyd, gwelwyd holi pwrpasol ac amrywiol oedd yn sbarduno ymateb addas gan y disgyblion, ac yn hybu cyfranogiad gweithredol. Defnyddiant ystod o strategaethau i gynnal y disgyblion, gan gefnogi'r dysgu'n gyson trwy ymyrryd yn bwrpasol ac amserol. Defnyddiant ystod o adnoddau pwrpasol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.
- 19 Mae'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir yn Nhymor yr Haf yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol, ac mae'r sylwadau'n rhoi gwybodaeth glir o gyflawniadau disgyblion ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Chwe Maes Dysgu, mewn iaith sy'n ddealladwy i'w rhieni.
- 20 Mae'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu a gynigir gan yr ysgol yn diwallu anghenion pob disgybl. Mae'n gytbwys ac eang, yn aml yn ddiddorol, a chaiff ei gynllunio mewn modd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad naturiol o un cyfnod dysgu i'r nesaf. Mae'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.
- 21 Mae cynlluniau gwaith yr ysgol ym mhob maes cwricwlaidd yn nodi'n eglur y modd y cynllunnir i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion. Mae hwn yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol.

- 22 Caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo'n gadarnhaol. Mae'r gwasanaethau addoli ar y cyd o fewn y dosbarthiadau ac ar gyfer yr ysgol gyfan yn gwneud cyfraniad da tuag at ddealltwriaeth y disgyblion o faterion ysbrydol a moesol.
- 23 Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn rhagorol ac yn ystod yr ymgynghoriad cyn- arolygiad, mynegwyd cryn fodlonrwydd gydag ansawdd y cyfathrebu a'r berthynas rhwng yr ysgol a chartrefi disgyblion.
- 24 Mae cysylltiadau niferus ac amrywiol yr ysgol gyda'r gymuned leol yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Mae'n ymestyn allan i'w chymuned ac mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd iawn i ddiwyddiadau a sefydliadau lleol.
- 25 Mae'r pwyslais a roddir gan yr athrawon ar ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol o oed cynnar yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Hybir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb llawn dros lawer o faterion bob dydd o fewn eu dosbarthiadau. Cânt eu hannog i ddatblygu sgiliau datrys problemau a sgiliau meddwl, sydd yn gysail da ar gyfer datblygu medrau menter yn ddiweddarach.
- 26 Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a chânt gefnogaeth ragorol gan yr athrawon ac oedolion eraill. Caiff pob disgybl fynediad i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac mae trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau cefnogaeth arbenigol pe cwyd yr angen.
- 27 Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, a chydweithir yn briodol gydag asiantaethau'r awdurdod addysg lleol a'r rhieni. Mae cynlluniau addysg unigol pwrpasol ar gael ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr anghenion arbennig. Fe ymgynghorir yn helaeth gyda'r rhieni wrth eu llunio ac fe'u hadolygir yn dymhorol ym mhob achos.
- 28 Mae systemau cadarn yn eu lle i fonitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion ac fe'u gweithredir yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r strategaethau ar gyfer hybu ymddygiad da yn un o ragoriaethau'r ysgol.
- 29 Mae datblygiad iachus, trwy weithgareddau'r ysgol i ddatblygu'n 'Ysgol Iach', yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Rhoddir sylw blaenllaw i fwyta'n iach, gyda'r disgyblion yn aml yn arwain y ffordd trwy gyfrwng gweithgareddau dosbarth a gwaith y Cyngor Ysgol yn annog newidiadau.
- 30 Mae'r ysgol yn hybu gweithredu cadarnhaol i oresgyn unrhyw ragfarnau a rhagdybiaethau'n seiliedig ar ryw, hil, iaith neu gefndir cymdeithasol, i barchu amrywiaeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 31 Mae'r pennaeth yn sicrhau, trwy esiampl, synnwyr o bwrpas a chyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Gweithredir mewn awyrgylch o ddisgwyliadau uchel ac mae'r holl staff a'r llywodraethwyr yn ymroddedig i'r gwaith o hyrwyddo safonau uwch. Llwyddir yn arbennig o dda yn hyn o beth.

- 32 Mae gan holl aelodau'r staff ddisgrifiadau swydd sydd yn amlinellu eu cyfrifoldebau yn fanwl. Fodd bynnag, ceir elfen o anghydbwysedd yn y dosbarthiad o gyfrifoldebau ac mae lle i'r cydlynwyr chwarae rôl fwy blaenllaw yn y gwaith o fonitro'r gwahanol feysydd cyfrifoldeb nag sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Hyd yn hyn, y pennaeth sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am y gwaith monitro ac arfarnu safonau, ynghyd ag ansawdd y ddarpariaeth.
- 33 Mae'r llywodraethwyr yn darparu cynhaliaeth dda i'r pennaeth wrth lywio cyfeiriad strategol yr ysgol, ond nid ydynt eto wedi ymgyfarwyddo yn ddigonol â'r gwaith o fonitro ansawdd y ddarpariaeth.
- 34 Mae'r ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ond ceir rhai diffygion yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni sydd yn golygu nad yw'n cwrdd yn llawn â chynnwys Cylchlythyr 15/01 Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 35 Gwelwyd bod gweithdrefnau hunan-arfarnu wedi eu sefydlu ers sawl blwyddyn ac mae holl aelodau cymuned yr ysgol wedi ymrwymo i welliant.
- 36 Mae'r adroddiad hunan-arfarnu, a gyflwynwyd i'r arolygwyr, o ansawdd da iawn. Mae'n ddogfen arfarniadol ac yn agored iawn o safbwynt nodi'r materion sydd angen eu datblygu yn ogystal â nodweddion da. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi cyfeiriad strategol da iawn i'r ysgol ac wedi ei gysylltu'n dda gyda'r hyn sy'n gynwysedig yn y ddogfen hunan-arfarnu.
- 37 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Yr angen i ddatblygu ymhellach rolau a chyfrifoldebau o fewn trefn reolaethol yr ysgol sydd yn bennaf gyfrifol am y dyfarniad is i Gwestiwn Allweddol 5 ac yng Nghwestiwn Allweddol 2, gwelwyd bod yr ysgol wedi bod yn rhy geidwadol yn ei harfarniad o ansawdd yr addysgu.
- 38 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Serch hynny, mae rhagor i wneud er sicrhau dosbarthiad mwy cyfartal o gyfrifoldebau.
- 39 Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon i sicrhau caiff pob agwedd o'r cwricwlwm ei addysgu yn effeithiol. At ei gilydd, mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran; maent o ansawdd da ac yn hwylus wrth law i'r disgyblion eu defnyddio.
- 40 Ar y cyfan, mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig gofod digonol ar gyfer niferoedd y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r neuadd yn gyfyng ei maint a rhaid teithio i'r ganolfan hamdden leol i ddiwallu gofynion cwricwlwm addysg gorfforol yn llawn. Mae'r ysgol hefyd yn amddifad o dir glas digonol. Mae'n drafferthus i'r plant dan bump oed a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 sydd wedi eu lleoli ar wahân i'r prif adeilad orfod symud yn ôl a blaen ar gyfer rhai gweithgareddau. Serch y cyfyngiadau, llwydda'r athrawon i wneud defnydd da ac effeithiol o'r hyn sydd ar gael.

- 41 Gweddol yw cyflwr cyffredinol yr adeiladau, ac maent yn galw allan am chwistrelliad o arian, yn enwedig y ffreutur. Nid yw'r adeiladau yn gwbl hygyrch i'r anabl a does dim toiledau penodol ar eu cyfer.
- 42 Cyfoethogir amgylchedd yr ysgol gan arddangosfeydd chwaethus a diddorol sy'n darparu amgylchedd dysgu braf i'r disgyblion a'u cynorthwyo yn eu dysgu.
- 43 Mae rheolaeth ariannol yn dynn ac mae'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'n darparu gwerth da iawn am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1: barhau i gynnal yr addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel sydd yn bodoli ar hyn o bryd;
- A2: sicrhau dosbarthiad mwy cytbwys o gyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol;
- A3: ddatblygu rolau cydlynwyr pynciol a'r corff llywodraethol yn y gwaith o fonitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth;
- A4: sicrhau bod cynnwys adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn cwrdd yn llawn â'r gofynion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 44 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 45 Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni safonau sydd ag iddynt nodweddion rhagorol o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

- 46 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac maent yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Gwnânt gynnydd da yn y datblygiad o'u medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Mae'r datblygiad o'u medrau cyfathrebu Cymraeg ar draws yr ystod brofiadau yn rhagorol.
- 47 Cyflawna'r disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 safonau rhagorol wrth ddefnyddio'u medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm ac mae nifer arwyddocaol ohonynt yn huawdl iawn. Cyflawnant safonau da wrth iddynt ddefnyddio eu medrau mathemategol ar draws y pynciau, ac mae'r defnydd a wnânt o'u medrau technoleg gwybodaeth mewn ystod o gyd-destunau yn aml yn dangos rhagoriaeth.
- 48 Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn nodwedd ragorol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dônt i fedru defnyddio eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg mewn ystod o gyd-destunau cwricwlaidd, gan newid o un iaith i'r llall yn ddiraferth.
- 49 Yng Nghyfnod Allweddol 1 yn 2005, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 100% o'r disgyblion lefel 2 neu'n uwch ym mhynciau craidd Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2004 roedd y ffigwr eto yn 100% (Cymru 80%; Gwynedd 82%) ac yn 2003 roedd yn 67% (Cymru 79%; Gwynedd 79%). Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2005 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol (2004) ym mhob un o'r pynciau.
- 50 Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2005, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 80% o'r disgyblion yn yr ysgol lefel 4 neu'n uwch, ym mhynciau craidd Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2004 roedd yn 94% (Cymru 72%; Gwynedd 76%) ac yn 2003 y ffigwr oedd 100% (Cymru 71%; Gwynedd 72%). Roedd y canlyniadau ar gyfer 2005 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol (2004) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- 51 Dros amser, nid oes yna batrymau amlwg o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a genethod mewn un o'r cyfnodau allweddol.
- 52 O gymharu gydag ysgolion tebyg yng Nghymru o ran y ganran o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn aml o fewn y grŵp uchaf eu perfformiad.
- 53 Yn eu gwersi, gwelwyd bod y disgyblion, yn dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd yn hynod effeithiol. Maent yn ymwybodol o gryfderau eu gwaith, gallant egluro'r hyn sydd angen ei wneud i'w wella ac fe wnânt gynnydd arbennig o dda tuag at gyrraedd eu potensial.
- 54 Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol yn y datblygiad o'u medrau personol, cymdeithasol a dysgu. Arddangosant agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith a dangosant ddiddordeb gwirioneddol yn y gwersi.

Defnyddiant eu hamser yn effeithiol iawn ac mae lefelau cymhelliant yn uchel iawn ar draws yr ystod oed.

- 55 Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac maent yn wybodus iawn am ddisgwyliadau uchel yr ysgol. Maent yn barchus a chwrtais tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Maent yn drefnus a disgybledig iawn yn eu cyfraniad i'r gweithdrefnau dyddiol ac fe gaiff yr agwedd gyfrifol hon effaith gadarnhaol iawn ar eu dysgu.
- 56 Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae'r plant dan bump oed a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn arddangos dychymyg effro mewn gwersi cerddoriaeth ac mae gwaith dylunio a thechnoleg, a chelf disgyblion Cyfnod Allweddol 2 o safon uchel iawn.
- 57 Ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, roedd canran gyfartalog presenoldeb yr ysgol o gwmpas 96%. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.
- 58 Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn nodwedd drawiadol. O oed cynnar, cymerant gryn gyfrifoldeb dros drefnu gwaith eu hunain ac mae effaith hyn i weld yn amlwg yn y gwahanol gyweithiau a gynhyrchir gan ddisgyblion hŷn yr ysgol.
- 59 Mae disgyblion yn dangos parch, gofal a chonsyrn dros eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gyfleoedd cyfartal ac fe barchant amryfaldeb credoau, agweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol.
- 60 Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o fyd gwaith trwy'r amrywiol brofiadau a dderbyniant trwy ymweld â mannau gwaith, a thrwy siarad ag ymwelwyr. Maent yn gwneud cyfraniadau arbennig o dda i'r gymuned.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 61 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid yw'r adroddiad hunan-arfarnu wedi rhoi gwerth llawn ar allu'r athrawon i gymell disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol aeddfed.
- 62 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
57%	43%	---	---	---

- 63 Mae'r athrawon yn llwyddiannus wrth gymell y disgyblion i ddysgu ac yn gosod her briodol ar eu cyfer fel dysgwyr unigol. Yn y gwersi a arsylwyd, mae

nodweddion rhagorol a da yr addysgu yn cynnwys cynllunio clir a phwrpasol, paratoi trylwyr o ran gwybodaeth ac adnoddau, tasgau priodol ac ymestynnol wedi eu gwahaniaethu'n effeithiol, cyflwyno amrywiol, diddorol ac esboniadau eglur wrth osod tasgau.

- 64 Mae'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol drylwyr. Yn y gwersi a arsylwyd, gwelwyd holi pwrpasol ac amrywiol oedd yn sbarduno ymateb addas gan y disgyblion, ac yn hybu cyfranogiad gweithredol. Defnyddiant ystod o strategaethau i gynnal y disgyblion, gan gefnogi'r dysgu'n gyson trwy ymyrryd yn bwrpasol ac amserol. Defnyddiant ystod o adnoddau pwrpasol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.
- 65 Maent yn cynllunio'n effeithiol yn y tymor byr, gan sicrhau bod gofynion y cynlluniau gwaith tymor canolig yn cael eu hateb, tra ar yr un pryd yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion penodol y disgyblion.
- 66 Mae perthynas waith rhagorol i'w gweld yn gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae'r athrawon yn ymwybodol o anghenion disgyblion unigol, yn targedu cefnogaeth addas ac yn gwahaniaethu tasgau i ateb yr anghenion hynny. Dangosant barch at y disgyblion ac at eu gwaith, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn agwedd y disgyblion hwythau at ei gilydd ac at eu gwaith.
- 67 Caiff polisi cyfle cyfartal yr ysgol ei weithredu'n llawn, a chaiff pob unigolyn, beth bynnag ei hil, genedl, neu anabledd, ei ystyried yn gyfartal, gan dderbyn parch yn ôl ei allu, ei ddoniau a'i gyflawniad.
- 68 Caiff anghenion ieithyddol y disgyblion eu cyfarfod yn llawn, ac mae'r gwaith o ddatblygu dwyieithrwydd yn nodwedd ragorol ym mywyd yr ysgol.
- 69 Mae'r athrawon yn gweithredu gweithdrefnau asesu effeithiol ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal ag asesiadau athrawon tymhorol yn y pynciau craidd a blynyddol yn y pynciau sylfaen, defnyddir profion safonedig mewn iaith a mathemateg. Mae'r cofnodion asesu'n galluogi athrawon i dracio cynnydd pob disgybl gydol ei yrfa yn yr ysgol.
- 70 I gynorthwyo gyda'r gwaith asesu, mae'r ysgol yn datblygu portffolios pynciol o waith wedi ei lefelu. Defnyddir gwaith disgyblion a deunydd enghreifftiol a gyhoeddwyd, a chaiff y portffolios eu gwirio gan arbenigwyr pynciol yr awdurdod addysg lleol. Mae'r gwaith hwn yn gyfraniad positif at gryfhau dealltwriaeth yr athrawon o ofynion gwahanol lefelau ar draws y cwricwlwm.
- 71 Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n gyson, a chynigir sylwadau cefnogol ac adeiladol i'w cynorthwyo i ddeall sut y gallent wella'u gwaith. Caiff targedau addas eu gosod er mwyn sicrhau cynnydd.
- 72 Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i rieni ddwywaith y flwyddyn, a gwahoddir rhieni i'r ysgol i'w trafod ar y ddau achlysur. Yn ogystal, llunnir 'Portread o gynnydd' ar gyfer pob disgybl yn Nhymor yr Hydref sy'n amlinellu cynnydd dros dymor, ac yn awgrymu ffordd ymlaen. Mae'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir yn Nhymor yr Haf yn cydymffurfio'n

llawn â'r gofynion statudol, ac mae'r sylwadau'n rhoi gwybodaeth glir o gyflawniadau disgyblion ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Chwe Maes Dysgu, mewn iaith sy'n ddealladwy i rieni. Dengys y rhieni werthfawrogiad o'r adroddiadau.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 73 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 74 Mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w anghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
- 75 Mae'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu a gynigir gan yr ysgol yn diwallu anghenion pob disgybl. Mae'n gytbwys ac eang, yn aml yn ddiddorol, a chaiff ei gynllunio mewn modd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad naturiol o un cyfnod dysgu i'r nesaf. Mae'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.
- 76 Mae cynlluniau gwaith yr ysgol ym mhob maes cwricwlaidd yn nodi'n eglur y modd y cynllunnir i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion. Mae hwn yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol.
- 77 Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion y 'Fframwaith ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol', ac yn rhoi sylw priodol i'r holl agweddau mewn gwersi penodol yn ogystal â thrwy blethu nifer o agweddau i weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Defnyddir amser cylch yn effeithiol i roi cyfleoedd i ddisgyblion i ymchwilio i deimladau ac ymateb i sefyllfaoedd mewn awyrgylch ddiogel. Mae'r ysgol yn y broses o gryfhau'r strwythur er mwyn sicrhau mwy o eglurder ar gyfer cynllunio gweithgarwch.
- 78 Caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo'n gadarnhaol. Mae'r gwasanaethau addoli ar y cyd o fewn y dosbarthiadau ac ar gyfer yr ysgol gyfan yn gwneud cyfraniad da tuag at ddealltwriaeth y disgyblion o faterion ysbrydol a moesol. Mae'r ysgol yn trefnu digwyddiadau megis cyngherddau Nadolig yn y gymuned, ac yn cymryd rhan amlwg yng ngweithgareddau Urdd Gobaith Cymru ar lefel leol a chenedlaethol.
- 79 Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn rhagorol, ac yn ystod yr ymgynghoriad cyn-arolygiad, mynegwyd cryn fodlonrwydd gydag ansawdd y cyfathrebu a'r berthynas rhwng yr ysgol a chartrefi disgyblion. Mae rhieni yn wybodus iawn am fywyd a gwaith yr ysgol. Ymatebant yn gadarnhaol wrth godi arian, gan ddarparu cynhaliaeth ar gyfer athrawon yn ôl y galw. Mae'r cytundeb cartref-ysgol, ynghyd â'r llawlyfr rhieni yn cwrdd â'r gofynion statudol.

- 80 Ceir cysylltiadau da gydag ysgolion eraill y dalgyrch ac mae'r trefniadau trosiannol bugeiliol i'r cyfnod uwchradd yn cael eu trefnu'n effeithiol.
- 81 Mae cysylltiadau niferus ac amrywiol yr ysgol gyda'r gymuned leol yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Mae'n ymestyn allan i'w chymuned ac mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd iawn i ddiwyddiadau a sefydliadau lleol.
- 82 Caiff disgyblion brofiadau da sy'n codi eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith. Mae rhain yn cynnwys ymweliadau gan siaradwyr ac ymweliadau â siopau a busnesau lleol, ynghyd â gweithgareddau sy'n rhan o wahanol brosiectau.
- 83 Mae'r modd yr hyrwyddir medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd ragorol, ac adlewyrchir hyn yng ngallu'r disgyblion o oed cynnar i weithredu'n hyderus yn y ddwy iaith. Rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngweithgareddau'r dosbarth, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gweithgareddau cymunedol. Mae'n amlwg hefyd yng nghynlluniau gwaith yr ysgol.
- 84 Er nad oes polisi ysgrifenedig gan yr ysgol, mae cynladwyedd yn cael blaenoriaeth uchel, a rhoddir cryn bwyslais ar weithgareddau priodol i hybu'r maes hwn. Defnyddir biniau ailgyrchu yn helaeth, ac mae'r ysgol wedi hyrwyddo gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth disgyblion, a'u rhieni, o'r angen i dorri i lawr ar wastraff a llygredd, ac o'r angen i amddiffyn yr amgylchfyd. Y mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol trwy weithgareddau o fewn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gwasanaethau boreol a gweithgareddau allgyrsiol megis cyngherddau i godi arian ar gyfer achosion da. Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau gydag India trwy'r elusen Grail Trust, ac mae cysylltiadau cwricwlaidd ar y gweill gyda phlant o wlad Sbaen.
- 85 Mae'r pwyslais a roddir gan yr athrawon ar ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol o oed cynnar yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Hybir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb llawn dros lawer o faterion bob dydd o fewn eu dosbarthiadau. Cânt eu hannog i ddatblygu sgiliau datrys problemau a sgiliau meddwl, sydd yn gysail da ar gyfer datblygu medrau menter yn ddiweddarach. Rhoddir y cyfrifoldeb i ddisgyblion hŷn yr ysgol dros reoli Siop ffrwythau'r ysgol yn ei holl agweddau.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

- 86 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 87 Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn lle caiff disgyblion bob gofal a chefnogaeth. Mae perthynas ragorol yn bodoli rhwng disgyblion â'i gilydd, a rhyngddynt â'r athrawon ac oedolion eraill.

- 88 Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a chânt gefnogaeth ragorol gan yr athrawon ac oedolion eraill. Mae disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin/derbyn, gan drosglwyddo'n rhwydd i Gyfnod Allweddol 1 pan fyddant yn rhannu gwersi am gyfnodau bob wythnos.
- 89 Mae adnabyddiaeth yr athrawon o bob disgybl unigol yn dda iawn, a chaiff pob un y gefnogaeth briodol yn unol â'u hanghenion. Caiff pob disgybl fynediad i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac mae trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau cefnogaeth arbenigol pe cwyd yr angen.
- 90 Mae saith o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig ar hyn o bryd, a derbyniant gefnogaeth briodol i ymateb i'w hanghenion penodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, a chydweithir yn briodol gydag asiantaethau'r awdurdod addysg lleol a'r rhieni. Mae cynlluniau addysg unigol pwrpasol ar gael ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr. Ymgynghorir yn helaeth gyda'r rhieni wrth eu llunio, ac fe'u hadolygir yn dymhorol ym mhob achos. Yn gyffredinol, cefnogir y disgyblion hyn gan weithgareddau gwahaniaethol pwrpasol o fewn gweithgarwch arferol y dosbarth, ond caiff rhai o'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sylw unigol, neu mewn grŵp bach, gan athrawes deithiol benodol, gan ffocysu ar ddatblygiad iaith a llythrennedd.
- 91 Mae systemau cadarn yn eu lle i fonitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion, ac fe'u gweithredir yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r strategaethau ar gyfer hybu ymddygiad da yn un o ragoriaethau'r ysgol.
- 92 Mae datblygiad iachus, trwy weithgareddau'r ysgol i ddatblygu'n 'Ysgol Iach', yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Rhoddir sylw blaenllaw i fwyta'n iach, gyda'r disgyblion yn aml yn arwain y ffordd trwy gyfrwng gweithgareddau dosbarth a gwaith y Cyngor Ysgol yn annog newidiadau. Mae diogelwch a lles disgyblion yn bwysig iawn i'r ysgol, ac yn cael sylw rhagorol gan athrawon a staff eraill.
- 93 Mae polisi amddiffyn plant clir a chadarn yn ei lle, ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gofynion a'r gweithdrefnau.
- 94 Mae'r ysgol yn hybu gweithredu cadarnhaol i oresgyn unrhyw ragfarnau a rhagdybiaethau'n seiliedig ar ryw, hil, iaith neu gefndir cymdeithasol, i barchu amrywiaeth yn ôl y canllawiau ym mholisi cydraddoldeb yr ysgol. Caiff pob unigolyn ei drin yn gyfartal, a sicrhau na fydd unrhyw unigolyn o dan anfantais. Mae'r ysgol wedi llunio cynllun hygyrchedd yn unol â gofynion cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 15/2004.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 95 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Dyfarnwyd gradd yn is gan yr arolygwyr yn bennaf oherwydd yr angen i ddatblygu ymhellach rolau a chyfrifoldebau o fewn trefn reolaethol yr ysgol.
- 96 Mae'r pennaeth yn sicrhau, trwy esiampl, synnwyr o bwrpas a chyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Gweithredir mewn awyrgylch o ddisgwyliadau uchel ac mae'r holl staff a'r llywodraethwyr yn ymroddedig i'r gwaith o hyrwyddo safonau uwch. Llwyddir yn arbennig o dda yn hyn o beth.
- 97 Mae gan holl aelodau'r staff ddisgrifiadau swydd sydd yn amlinellu eu cyfrifoldebau yn fanwl. Fodd bynnag, ceir elfen o anghydbwysedd yn y dosbarthiad o gyfrifoldebau ac mae lle i'r cydlynwyr chwarae rôl fwy blaenllaw yn y gwaith o fonitro'r gwahanol feysydd cyfrifoldeb nag sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
- 98 Mae ystod o bolisiâu rheolaethol a chwricwlaidd o ansawdd da mewn lle ac fe gânt eu gweithredu gyda chysondeb.
- 99 Rhoddir ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â'r rhai sydd yn gysylltiedig â Chynllun Strategol Addysg Gwynedd wrth gynllunio ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae eisoes wedi derbyn achrediad fel 'Ysgol Iach', Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am yr ail dro, ac wedi cydweithio ar brosiectau o dan nawdd Blaengareddau Addysg Wledig.
- 100 Gosodir targedau treigl ysgol-gyfan yn ôl y gofynion. Maent yn heriol, ond yn gyraeddadwy ac yn seiliedig ar wybodaeth yr ysgol o'i disgyblion a'u perfformiad tebygol.
- 101 Mae trefniadau rheoli perfformiad addas wedi'u sefydlu ac mae'r amcanion a osodir yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus staff tra hefyd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ei hun. Caiff yr athrawes sydd newydd gymhwyso gefnogaeth dda gan y pennaeth a gweddill y staff.
- 102 Mae trefniadau da mewn lle ar gyfer cwrdd â gofynion llwyth gwaith athrawon.
- 103 Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac ar y cyfan fe ymgwymerant â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae ganddynt ystod dda o gefndiroedd a phrofiad, a byddant yn ymweld yn achlysurol. Darparant gynhaliaeth dda i'r pennaeth wrth lywio cyfeiriad strategol yr ysgol, ond nid ydynt eto wedi ymgysgu yn ddigonol â'r gwaith o fonitro ansawdd y ddarpariaeth.
- 104 Mae'r ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ond ceir rhai diffygion yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni sydd yn golygu nad yw'n cwrdd yn llawn â chynnwys Cylchlythyr 15/01 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 105 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 106 Gwelwyd bod gweithdrefnau hunan-arfarnu wedi eu sefydlu ers sawl blwyddyn ac mae holl aelodau cymuned yr ysgol wedi ymrwymo i welliant. Gweithredir y trefniadau yn systematig ac maent yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth. Cedwir cofnodion manwl, er mae yna duedd ar adegau iddynt fod yn orddisgrifiadol.
- 107 Hyd yn hyn, y pennaeth sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am y gwaith monitro ac arfarnu safonau, ynghyd ag ansawdd y ddarpariaeth. Cydnabyddir yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yr angen i ddatblygu ymhellach rôl y cydlynwyr pynciol ac mae'r arolygwyr yn cytuno â hyn.
- 108 Caiff data ar gyraeddiadau disgyblion ei ddadansoddi'n effeithiol ac fe geir lefel dda o ymwybyddiaeth o sut y mae'r ysgol yn perfformio mewn cyd-destun sirol a chenedlaethol.
- 109 Er nad oes trefniadau ffurfiol mewn lle i ystyried safbwyntiau rhieni, mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd agored ac yn barod iawn i ystyried barn eraill sydd ganddynt ddi-ddordeb yn y gwaith.
- 110 Mae'r adroddiad hunan-arfarnu, a gyflwynwyd i'r arolygwyr, o ansawdd da iawn. Mae'n ddogfen arfarniadol ac yn agored iawn o safbwynt nodi'r materion sydd angen eu datblygu yn ogystal â nodweddion da.
- 111 Mae'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi cyfeiriad strategol da iawn i'r ysgol ac mae ganddo gefnogaeth lawn y staff a'r llywodraethwyr. Ceir arfarniad gwerthfawr ynddo o flaenoriaethau'r flwyddyn aeth heibio ac mae'r blaenoriaethau cyfredol a thu hwnt yn cysylltu'n dda gyda'r hyn sy'n gynwysedig yn nogfen hunan-arfarnu'r ysgol. Fe ddelir â'r blaenoriaethau cyfredol o dan gyfres o benawdau addas sy'n gymorth ar gyfer eu monitro.
- 112 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Materion yn ymwneud â rolau sydd yn bennaf gyfrifol am y dyfarniad is i Gwestiwn Allweddol 5 ac yng Nghwestiwn Allweddol 2, gwelwyd bod yr ysgol wedi bod yn rhy geidwadol yn ei harfarniad o ansawdd yr addysgu.
- 113 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Serch hynny, mae rhagor i wneud er sicrhau dosbarthiad mwy cyfartal o gyfrifoldebau.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 114 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 115 Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon i sicrhau caiff pob agwedd o'r cwricwlwm ei addysgu yn effeithiol. Mae'r athrawon yn hyddysg yn y meysydd a addysgir ganddynt, ac fe ddiweddarant eu gwybodaeth gwricwlaidd a'u medrau addysgu drwy ddilyn rhaglen hyfforddiant sirol a lleol. Ceir cydweithio hwylus rhwng yr athrawes plant dan bump a'r weinyddes feithrin.
- 116 At ei gilydd, mae cyflenwad da o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran; maent o ansawdd da ac yn hwylus wrth law i'r disgyblion eu defnyddio. Ceir nifer dda o gyfrifiaduron, ynghyd â byrddau gwyn rhyngweithiol sydd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.
- 117 Mae'r disgyblion yn elwa'n dda o gyfraniad ymwelwyr i rannu o'u profiadau a hefyd ymweliadau addysgol i gyfoethogi eu dysgu.
- 118 Ar y cyfan, mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig gofod digonol ar gyfer niferoedd y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r neuadd yn gyfyng ei maint a rhaid teithio i'r ganolfan hamdden leol i ddiwallu gofynion cwricwlwm addysg gorfforol yn llawn. Mae'r ysgol hefyd yn amddifad o dir glas digonol. Mae'n drafferthus i'r plant dan bump oed a disgyblion Cyfnod Allweddol 1 sydd wedi eu lleoli ar wahân i'r prif adeilad, orfod symud yn ôl a blaen ar gyfer rhai gweithgareddau. Serch y cyfyngiadau, llwydda'r athrawon i wneud defnydd da ac effeithiol o'r hyn sydd ar gael.
- 119 Gweddol yw cyflwr cyffredinol yr adeiladau, ac maent yn galw allan am chwistrelliad o arian, yn enwedig y ffreutur. Nid yw'r adeiladau yn gwbl hygyrch i'r anabl a does dim toiledau penodol ar eu cyfer.
- 120 Cyfoethogir amgylchedd yr ysgol gan arddangosfeydd chwaethus a diddorol sy'n darparu amgylchedd dysgu braf i'r disgyblion a'u cynorthwyo yn eu dysgu.
- 121 Mae rheolaeth ariannol yn dynn ac mae'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn effeithiol iawn ac mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Derbyniwyd adroddiad canmoladwy iawn sydd yn nodi nifer o ragoriaethau ym mywyd yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn ymfalchio fod yr arolygwyr wedi darganfod fod yr ysgol yn gymuned ofalgar iawn lle caiff disgyblion ofal a chefnogaeth rhagorol. Mae'r ysgol yn derbyn canlyniadau'r arolygiad fel rhai cadarnhaol dros ben ac yn ymfalchio fod safonau cylawniad y disgyblion yn ogystal â safonau'r addysgu o'r radd uchaf.

Mae'r ysgol yn ymhyfrydu fod yr arolygwyr yn canmol sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion drwy'r ysgol, nodant na ellir gwahaniaethu rhwng disgyblion iaith gyntaf ac ail iaith.

Adroddiad gan David Martin Cray.
Ysgol Borthygest, 27/02/06

Mae'r ysgol yn hynod falch fod yr arolygwyr wedi canfod a nodi y bartneriaeth ragorol sydd yn bodoli rhwng pawb sydd yn ymwnued a chefnogi bywyd a gwaith yr ysgol. Gwerthfawrogir hefyd y cyfeiriad a geir at y berthynas glos sydd yn bodoli rhwng yr ysgol â'r gymuned leol.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Borth-y-gest
Math o ysgol	Cymuned
Ystod oedran y disgyblion	3-11 mlwydd
Cyfeiriad yr ysgol	Borth-y-Gest Porthmadog Gwynedd
Cod post	LL49 9UF
Rhif ffôn	(01766) 513285
Pennaeth	Mrs Mair Millar
Dyddiad penodi	Rhagfyr 1996
Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol	Mr Gwilym Jones
Arolygydd Cofrestredig	Mr D M Cray
Dyddiadau'r arolygiad	27-28 Chwefror 2006

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	4	11	12	6	9	13	9	13	77

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.7

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	9:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	--
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	20
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2005	95.1%	91.5%	94.2%
Haf 2005	96.2%	93.1%	97.2%
Hydref 2005	95.2%	93.5%	96.2%

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	3%
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 1

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005	Nifer y disgyblion yn B2	8
Gan fod nifer y disgyblion cymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	80%

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 2

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005							Nifer y disgyblion yn B6	10				
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	4+
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol							20	20	60	80
		Cenedlaethol	1				1	5	16	46	30	76
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol							10	30	60	90
		Cenedlaethol	1		1		1	3	17	49	28	77
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol							20	20	60	80
		Cenedlaethol					1	3	17	46	31	77
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol							10	30	60	90
		Cenedlaethol						1	11	50	37	87

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	80%	Yng Nghymru	72%

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail tystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd gyfanswm o bum niwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- Un deg saith o wersi neu wersi rhannol;
- phob dosbarth;
- addoli ar y cyd; ac
- Ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau; ac
- uwch reolwyr, athrawon, staff cymorth a staff gweinyddol a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- tri deg naw o ymatebion i holiadur rieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith disgyblion yn y gorffennol a heddiw.

Cafodd y tîm arolygu gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Math	Agweddau
Mr D M Cray	A Cof	Cyd-destun; Crynodeb; Argymhellion; Atodiadau; Cwestiynau allweddol 1;5;6 a 7
Mr Terwyn Tomos	Tîm	Cwestiynau allweddol 2; 3 a 4
Mr Wil Owen	Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7

Enwebai'r ysgol: Mrs Mair Millar

Contractwr: Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.